**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1044
Ein cyf/Our ref KW/05799/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

21 Hydref 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Hydref ynghylch Deiseb P-05-1044, sef Sefydlu TGAU Astudiaethau Natur i helpu i baratoi cenedlaethau'r dyfodol i fynd i'r afael â'r bygythiadau sy'n wynebu natur, sydd wedi dod i law.

Fel y gwyddoch efallai, ar ddechrau'r flwyddyn, cyflwynodd y corff dyfarnu o Loegr, OCR, gynnig i Adran Addysg Llywodraeth y DU ar gyfer cymhwyster TGAU Astudiaethau Natur newydd. Ym mis Mehefin, lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ganddynt a gellir gweld crynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad yma: https://teach.ocr.org.uk/en/summary-of-findings. Mae OCR hefyd wedi cynhyrchu llinell amser sy'n dangos sut y maent yn bwriadu bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Fel y gwelwch o hyn, mae'r gwaith yn dal i fod yn y camau cynnar a bydd angen i OCR gael cymeradwyaeth gan Adran Addysg Llywodraeth y DU cyn bwrw ymlaen ymhellach. Bydd angen cymeradwyaeth Ofqual hefyd.

Fel y gwyddoch, Cymwysterau Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru, gan gynnwys TGAU, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol. Un o'u swyddogaethau yw penderfynu pa gymwysterau y gellir eu gwneud yn gymwys i gael arian cyhoeddus. Felly, os caiff y cymhwyster OCR hwn ei gymeradwyo, efallai y bydd ar gael wedyn i ddysgwyr yng Nghymru .

Rydych hefyd yn ymwybodol, rwy'n siŵr, bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y Cwricwlwm newydd i Gymru, a bwriedir i hwnnw gael ei gyflwyno mewn ysgolion o fis Medi 2022. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi datganiad clir o'r hyn sy'n bwysig wrth gyflwyno addysg eang a chytbwys. Gweledigaeth ac uchelgais sy'n cael eu rhannu ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yw'r Pedwar Diben. O lwyddo i gyflawni'r rhain, rydym yn gosod disgwyliadau uchel ar bawb, yn hybu lles yr unigolyn a lles cenedlaethol, yn taclo diffyg gwybodaeth a gwybodaeth anghywir ac yn annog ymgysylltu beirniadol a dinesig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ochr yn ochr â’r gwaith o weithredu’r cwricwlwm newydd, mae Cymwysterau Cymru yn edrych i adolygu a mireinio’r cymwysterau sydd ar gael i blant 14-16 oed er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd a’r cwricwlwm newydd. Ar hyn o bryd, mae Cymwysterau Cymru yn paratoi ail ran ei hymgynghoriad, sef Cymwys ar gyfer y Dyfodol. Bydd hyn yn helpu i benderfynu pa brif gymwysterau a ddylai fod ar gael i blant 16 oed i’w hastudio o 2025 ymlaen. Mae hwn yn ymgynghoriad cyhoeddus ac yn gyfle i unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg i ddweud eu dweud. Rwy’n annog Mr Curtis i edrych ar wefan Cymwysterau Cymru yn aml i gael y newyddion diweddaraf ynghylch pryd fydd yr ymgynghoriad yn agor.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education